**CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod rhithwir y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 5 Medi 2023 am 5.00pm.

Cafodd y cyfarfod yma ei ffrydio'n fyw ac mae manylion i'w gweld yma.

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol:-**

Y Cynghorydd A Fox (Cadeirydd)

Y Cynghorydd G Stacey
Y Cynghorydd L Ellis
Y Cynghorydd S Powderhill
Y Cynghorydd A O Rogers
Y Cynghorydd T Williams
Y Cynghorydd S Bradwick
Y Cynghorydd G Holmes
Y Cynghorydd M Powell
Y Cynghorydd J Turner

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Ms R Hope, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio
Mr M Owen, Rheolwr Trwyddedu Cynorthwyol
Ms K Trilloe, Rheolwr Diogelu Iechyd a Thrwyddedu
Mr O Williams, Uwch Gyfreithiwr – Materion Ymgyfreitha
Mr C Booker, Swyddog Gorfodi Materion Trwyddedu
Ms L Warton, Swyddog Trwyddedu

## 20 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol K. Johnson.

## 21 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r agenda.

## 22 DEDDF HAWLIAU DYNOL A'R DDEDDF TROSEDD AC ANHREFN

**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n trafod y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

## 23 COFNODION

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2023 yn rhai cywir.

**24 TRAFOD TRWYDDEDAU A CHOFRESTRIADAU A GYHOEDDWYD O DAN DDARPARIAETH PWERAU DIRPRWYEDIG AR GYFER Y CYFNOD: 10.07.23 - 20.08.23**

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio fanylion trwyddedau a chofrestriadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod rhwng 10 Gorffennaf 2023 a 20 Awst 2023 i'r Aelodau.

**PENDERFYNWYD** nodi'r diweddariad.

**25 TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD:**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr eitem nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**26 CRYNODEB GORFODI (GAN GYNNWYS DATA APELIADAU/ERLYNIADAU) AR GYFER Y CYFNOD: 10.07.23 - 20.08.23**

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio'r adroddiad yn amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf am apeliadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod rhwng 10 Gorffennaf 2023 a 20 Awst 2023.

Clywodd yr Aelodau bod y fasnach wedi mynegi pryderon yn adroddiad diwethaf y pwyllgor am y posibilrwydd y bydd llif o gerbydau a gyrwyr â thrwydded yn Wolverhampton yn gweithredu yn RhCT, a phryderon y garfan Trwyddedu yw fod dim pwerau gorfodi gan swyddogion RhCT i ddelio â'r cerbydau a'r gyrwyr yma. Ar ben hynny, cafodd y mater yma ei godi gan y Rheolwr Diogelu Iechyd a Thrwyddedu yng nghyfarfod y Panel o Arbenigwyr Trwyddedu sy'n cynrychioli pob awdurdod lleol ledled Cymru. Cytunwyd y byddai awdurdodau lleol yn monitro'r sefyllfa.

Dywedodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio fod RhCT hefyd wedi cyflwyno cais Rhyddid Gwybodaeth. Doedd dim ymateb hyd yn hyn, ond byddai hwn yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor ar ôl derbyn yr wybodaeth. Yn ogystal, mae pryderon hefyd am safon yr amodau ar gyfer cerbydau a gyrwyr Wolverhampton o gymharu â'r rheiny sydd wedi'u trwyddedu gan Gyngor Rhondda Cynon Taf.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor wneud y canlynol:

- Nodi'r diweddariad.

- Rhannu'r ymateb i'r cais Rhyddid Gwybodaeth gyda'r Pwyllgor ar ôl ei dderbyn.

## 27 CRYNODEB O'R TRWYDDEDAU A GYHOEDDWYD O DAN DDARPARIAETH AWDURDOD DIRPRWYEDIG AR GYFER Y CYFNOD: 10.07.23 - 20.08.23

Rhannodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio adroddiad â'r Aelodau'n amlinellu'r Trwyddedau a/neu Gofrestriadau a gafodd eu rhoi o dan ddarpariaeth Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod rhwng 10 Gorffennaf 2023 a 20 Awst 2023.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.20pm**

**Y Cynghorydd A Fox**
**Cadeirydd.**